

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
Nos Iau 30 Medi 2021

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Einir Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

Cyngor Sir

Y Cynghorydd Paul Rowlinson

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Linda Brown

Y Cynghorydd Dyfrig Jones

Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Y Cynghorydd Michael Williams

Y Cynghorydd Pearl Evans

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Bleddyn Williams
Ymddiheuriadau – gan y Cyng. Rheinallt Puw

2. Datgan Diddordeb

Dim i'w ddatgan.

3. Maes parcio Gerlan

Trafodwyd yr opsiynau a'r camau nesaf i'w cymryd gyda'r prosiect.

4. Materion Brys

i. Allt Pen y Bryn – problem gwlededd pan yn tynnu allan o'r gyffordd i'r A5 oherwydd y gor-dyfiant, ac hefyd traffic yn gyrru.

ii. Yr Hen Chwarel, Ffordd Gerlan – problemau oherwydd gor-dyfiant a'r ffordd yn gul

iii. Braichmelyn/Bont Tŵr – problem gwlededd a traffic sy'n gor-yrru pan yn tynnu allan i'r A5

Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r Adran Cefnffyrdd gyda'r uchod.

5. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion

6.1 Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll. Cyngor Gwynedd am edrych ar wyneb y ffordd pan yn gwneud gwaith ail-wynebu ar y palmentydd.

6.2 CCTV Stryd Fawr – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

6.3 Arwyddion stryd – Angen caniatad perchnogion yr adeiladau a prynu arwyddion.

6.4 Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones. Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle a'i drafod gyda nhw.

6.5 Cae chwarae Rachub – Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd unwaith eto am yr arian Adran 106: Rhwymedigaethau Cynllunio ar gyfer caniatad cynllunio Llwyn Bedw.

6.6 Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – yn dilyn cyfarfod ar y safle, Cyngor Gwynedd am osod mwy o rwystrau.

6.7 Y Clerc i holi Adra os oes unrhyw wrthwynebiad i osod fainc ar eu safle yn Stryd y Ffynnon, Gerlan.

7. Cae chwarae Pantdreiniog

Yn dilyn derbyn prisiau diweddaraf am yr holl offer, penderfynwyd symud ymlaen gyda'r prosiect.

8. Maes parcio Cae Star

Trafodwyd y ffioedd newydd sydd wedi eu pennu ar gyfer aros yn y maes parcio. Y Cyng. Rheinallt Puw wedi ysgrifennu at yr Adran yn barod. Y Clerc i holi os oes unrhyw ffordd i'r ffioedd cael eu hail-ystyried.

9. Adroddiad gan gynrychiolwyr

Cynhadledd Arfer Arloesol – y Cynghorydd Godfrey Northam wedi mynychu'r digwyddiad rhithiol ac wedi adrodd yn ôl i'r Cyngor.

10. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2021'

10.1 Ebst gan Cyngor Gwynedd - Ardal Ni 2035 – wedi adnabod 13 ardal a'r bwriad yw cynnal sgyrsiau gyda grwpiau a phobl leol am gryfderau, blaenoriaethau a chyfleoedd yn eu cymunedau. Y Cyngor i ystyried a thrafod y 3 cwestiwn yn ein cyfarfod ac yna trefnu cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd penodi Is-bwyllgor i drafod ymhellach – Y Cyngor. Walter Williams, Mary Jones, Godfrey Northam, Michael Williams a Einir Williams.

10.2 Ebst gan Cymdeithas yr Iaith - Llythyr wedi ei ddrafftio: Galw ar Llywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon ychwanegu eu henwau i'r llythyr.

10.3 E-bost gan y Cyng. Rheinallt Puw/Pwyllgor Carnifal Bethesda – Angen llythyr cefnogaeth i'w cais i gau'r A5 ar gyfer y Carnifal. Penderfynwyd bod y Cyngor am gefnogi.

10.4 E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri - Chwilio am aelodau newydd. Y Cynghorwyr i ymateb fel unigolion.

10.5 E-bost gan Comisiwn Ffiniau i Gymru - Cyhoeddi Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaethau Seneddol newydd Cymru. Nid yw'r Cyngor yn hapus gyda'r cynigion cychwynnol, gan bod Arfon yn diflannu. Rydym yn teimlo bod ffit mwy naturiol, demograffig a ieithyddol at Meirion/Dwyfor.

10.6 E-bost gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Ymgynghoriad Agored ar Ganllawiau arfaethedig yn ymwneud ag 'Egwyddorion Gweinyddu Da' a 'Rheoli Cofnodion yn Dda'. Penderfynwyd bod angen mwy o amser i ddarllen y dogfennau, ac i edrych arno eto mis nesaf.

10.7 E-bost gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Diweddarau'r canllawiau er mwyn cefnogi Model Côt Ymddygiad 2016. Pawb i'w ddarllen er mwyn deall eich dyletswyddau o dan y Côt.

10.8 E-bost gan Llywodraeth Cymru – Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo. Penderfynwyd bod angen mwy o amser i ddarllen y dogfennau, ac i edrych arno eto mis nesaf.

10.9 E-bost gan Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad 'Llunio Dyfodol Cymru: Defnyddio cerrig milltir a dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd ein cenedl'. Penderfynwyd bod angen mwy o amser i ddarllen y dogfennau, ac i edrych arno eto mis nesaf.

10.10 Llythyr gan Have your Say – ymgynghori cyn ymgeisio am ganiatâd cynllunio – Brig y Nant, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda. Penderfynwyd bod yr holl sylwadau gwreiddiol yn ddilys, ac hefyd wedi derbyn sylwadau ychwanegol gan drigolion cyfagos.

11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C20/0716/13/LL

1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0152/13/LL

4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghyd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0805/13/LL

Tir ger Gwernydd, Gerlan

Cais ar gyfer adeiladu maes parcio

Penderfyniad: Caniatwyd, gydag amodau.

C21/0087/13/DT

Ty'n Llan, 17a Pant Glas, Bethesda

Cais i godi estyniad deulawr i ochr yr eiddo.

Penderfyniad: Caniatwyd, gydag amodau.

C21/0505/13/DT

1 Glan Ogwen, Bethesda

Cais ar gyfer dymchwel estyniad ochr unllawr a chodi estyniad unllawr yn ei le.

Penderfyniad: Caniatwyd, gydag amodau.

C21/0508/13/LL

Canolfan Cefnfaes, Bethesda

Newid defnydd o ganolfan gymunedol i ganolfan fentergarwch i gynnwys swyddfeydd, gweithdai, gofodau cyfarfod a 7 byncws a darpariaethau cysylltiedig

C21/0553/13/LL

Tŷ Capel Bethel, Henbarc, Rachub

C21/0682/13/AC

Plot 3 Yr Ardd, Gerlan, Bethesda

C21/0696/13/DT

5 Rhes Gordon, Bethesda

Ceisiadau

C21/0826/13/DT

16 Allt Pen Y Bryn, Bethesda

C21/0825/13/HD

Clwyd and Gwynedd Cadet Force Barracks, Bethesda

C21/0855/13/RC

Maes Yr Onnen Stryd Britannia, Rachub

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau.

Newid defnydd y gweithdy a'r storfa i fod yn rhan o'r annedd breswyl presennol

Penderfyniad: Ar y gweill

Diwygio Amod 2 o ganiatad rhif C16/0007/13/LL er mwyn codi tŷ mwy

Penderfyniad: Ar y gweill

Dymchwel adeiladwaith yn y cefn a chodi estyniad unllawr

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau.

Estyniad deulawr ac unllawr yn y cefn

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Caniatawyd, heb amodau.

Hysbysiad ymlaen llaw i ddymchwel dau ddosbarth symudol

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Caniatawyd, heb amodau.

Diddymu cytundeb o dan Adran 106 ar ganiatâd rhif C08A/0444/13/AM sy'n datgan mai'r tŷ oedd yn destun y caniatâd cynllunio yw'r unig adeilad sydd i'w godi ar y safle gyda gweddill y safle yn aros fel man agored.

Penderfyniad: Gwrthwynebu gan nad ydym yn gwybod beth yw'r bwriad pe bai'r amod Adran 106 yn cael ei ddileu o'r caniatad gwreiddiol. Roedd y Cyngor yn erbyn y cais gwreiddiol am 1 ty ar

y safle, gan bod pryderon am y traffig ychwanegol ar y ffordd gul. Mae'r safle yn anaddas ar gyfer mwy o dai, buasai adeiladu mwy o dai yn or-ddatblygiad o'r safle

Ffordd Pant, Bethesda

Gosod llinellau melyn wrth y bont
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

12. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Awst a Medi)	£542.40
CThEM (Awst a Medi)	£88.77
Dŵr Cymru – Gorffwysfan	£90.68
C jackson-llwybrau	£2109.50
C Jackson -meinciau	£483.00
C Jackson-Mynwent Coetmor	£400.00
Partneriaeth Ogwen-Gwasanaeth Clercio	£20864.50
Opus Energy – Llys Dafydd	£61.78
Cyngor Gwynedd-Archwilio Mewnol	£270.00
C L Jones-gwariant grant paentio	£793.66
Cyngor Gwynedd-toiledau cyhoeddus	£4000.00

13. Cyfarfodydd y Cyngor

Penderfynwyd bod pawb yn fodlon gyda cyfarfod dros Zoom am y tro. Atgoffyn bod y cyfarfod nesaf nos Fercher 20fed o Hydref 2021.